Rhan allweddol o fy rôl fel Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru ydy gosod y praesept blynyddol, sef y rhan honno o'r Dreth Gyngor sy'n talu am blismona. Mae'r lefel y gosodir y praesept yn penderfynu cyfanswm y gyllideb sydd ar gael ar gyfer plismona yng Ngogledd Cymru. Daw dros hanner yr arian ar gyfer plismona o'r Dreth Gyngor, hefo'r gweddill yn dod o Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru.

Yn dilyn arolwg a gynhaliwyd gyda trigolion a pherchnogion busnes Gogledd Cymru - a hefo cytundeb Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru - bydd cynnydd o 43c yr wythnos (neu £22.50 y flwyddyn) yn y Dreth Gyngor ar gyfer eiddo Band D ar gyfer blwyddyn ariannol 2025-26. O ran canran, mae hyn yn golygu cynnydd o 6.44% ers llynedd ac mae'r swm a gytunwyd yn dod i rym o 1 Ebrill 2025.

Mae sicrhau cydbwysedd teg rhwng sicrhau bod ein swyddogion heddlu, staff a gwirfoddolwyr gwerthfawr yn cael yr adnoddau digonol, a bod adnoddau ariannol trigolion eu hunain yn cael hystyried yn drylwyr, yn gyfrifoldeb rwyf yn ei gymryd o ddifri fel Comisiynydd Heddlu a Throsedd. Rwyf yn gwybod pa mor heriol ydy hi ar hyn o bryd i lawer o bobl a bod niferoedd mawr yn ei chael hi'n anodd yn ariannol. Rwyf yn gobeithio, drwy gydweithio hefo Llywodraethau Cymru a'r DU, y gallwn ni sicrhau bod gan yr Heddlu adnoddau da, a bod pobl leol wir yn teimlo'r ymdriniaeth gydweithredol hon o drechu troseddau yn eu cymunedau a'u bod yn gweld gwerth am eu harian.

Rydym i gyd yn dibynnu ar gael Heddlu sydd â'r adnoddau angenrheidiol er mwyn trechu trosedd a chadw ein cymunedau'n ddiogel. Fy nghyfrifoldeb i ydy sicrhau bod unrhyw gynnydd yn cael ei wario'n ddoeth gan Heddlu Gogledd Cymru wrth wasanaethu trigolion ac ymwelwyr y rhanbarth. Rwyf yn gobeithio y bydd y cynnydd hwn yn galluogi'r Heddlu weithredu ar y cyfeiriad rwyf wedi'i osod ar eu cyfer. Gosodwyd y cyfeiriad hwn yn fy Nghynllun Heddlu a Throsedd a lansiwyd yn ddiweddar ar gyfer ymladd ac atal troseddau yng Ngogledd Cymru. Mae'n canolbwyntio ar bresenoldeb plismona cymdogaeth leol; cefnogi dioddefwyr, cymunedau a busnesau; a system cyfiawnder troseddol deg ac effeithiol.

Fy ngwaith i, a'm dyletswydd i, ar ran y bobl, ydy dal y Prif Gwnstabl yn atebol o ran sut mae'r Heddlu'n cyflawni fy Nghynllun Heddlu a Throsedd. Rwyf yn gobeithio, gan ystyried yr adnoddau ariannol iawn, y gall swyddogion, staff a gwirfoddolwyr Heddlu Gogledd Cymru wneud y gwaith hwn yn effeithiol a hefo cymorth parhaus trigolion.

**Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru**

## Faint o’ch arian treth cyngor chi sy’n cael ei wario ar blismona?

Mae naw band treth cyngor yng Ngogledd Cymru, sydd wedi’u seilio ar werth cyfalaf yr eiddo yn 2003.

Band D yw’r dull Cenedlaethol o gymharu lefelau treth. Dim ond £372.15 o fil treth cyngor Band D sy’n cael ei glustnodi ar gyfer ariannu Gwasanaeth yr Heddlu yng Ngogledd Cymru, fel y cytunwyd gan Gomisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru.

Felly, yn dibynnu ar Fand eich eiddo chi, dyma faint o’ch bil treth cyngor fydd yn cael ei roi tuag at wasanaeth yr heddlu yng Ngogledd Cymru:

| | |
|---|---|
| Band A | £248.10 |
| Band B | £289.45 |
| Band C | £330.80 |
| Band D | £372.15 |
| Band E | £454.85 |
| Band F | £537.55 |
| Band G | £620.25 |
| Band H | £744.30 |
| Band I | £868.35 |

## Cymharu lefel y Gyllideb Refeniw â chanllawiau Llywodraeth Cymru

Gan ddefnyddio fformiwla a luniwyd ar gyfer pob Heddlu yng Nghymru a Lloegr, mae Llywodraeth Cymru a’r Swyddfa Gartref wedi cyflwyno “safon gwariant” a elwir yn Asesiad Gwariant Safonol (AGS) a Grant yr Heddlu o £148.610m ar gyfer 2025-2026. Dyma yw asesiad y Llywodraeth o’r hyn y bydd angen i’r Comisiynydd ei wario er mwyn darparu’r un lefel o wasanaeth a chomisiynwyr eraill yng Nghymru os ydynt hwythau hefyd yn gwario yn unol â chyfanswm eu AGS a’u Grant Heddlu eu hunain.

Mae gan y Comisiynydd hawl i wario mwy na chyfanswm yr AGS a’r Grant Heddlu, gyda’r gwahaniaeth yn cael ei ariannu gan y Dreth Cyngor neu o’r Cronfeydd Wrth Gefn. Mae’r Comisiynydd wedi penderfynu ar ofyniad Cyllideb o £211.842m.

## O ble mae’r arian yn dod?

46.03% - Grantiau Llywodraeth

53.97% - Treth Cyngor

## Beth ydych yn ei gael am eich arian?

9.10% yn cael ei wario yn ymdrin â’r Cyhoedd

42.10% yn cael ei wario ar blismona lleol

26.40% yn cael ei wario ar ymchwiliadau

8.30% yn cael ei wario ar gyfiawnder troseddol

14.10% yn cael ei wario ar ymgyrchoedd arbenigol

## Amcangyfrif o gronfeydd ariannol wrth gefn y Comisiynydd ar ddiwedd y flwyddyn ariannol

2024-2025 £49.215 miliwn

2025-2026 £41.070 miliwn

## Ble mae eich arian yn mynd?

## Cyllideb 2024-2025

| | |
|---|---|
| Gwariant - Cyflogau - Swyddogion Heddlu | £109.652 miliwn |
| Gwariant - Staff yr Heddlu | £61.123 miliwn |
| Gwariant – Pensiynau | £3.989 miliwn |
| Gwariant – Costau Eraill Gweithwyr | £7.336 miliwn |
| Gwariant – Costau Rhedeg Eraill | £50.238 miliwn |
| Gwariant – Cyfraniad i Wariant Cyfalaf | £5.999 miliwn |
| | |
| **Gwariant – Gwariant Refeniw Gros** | **£238.337 miliwn** |
| Llai Incwm | £38.056 miliwn |
| **Gofynion y Gyllideb** | **£200.281 miliwn** |
| **Ariennir Drwy:** | |
| Grant Penodol yr Heddlu | £54.362 miliwn |
| Grant Llawr | £23.289 miliwn |
| Grant Cymorth Refeniw | £16.109 miliwn |
| Cyfran o Ardrethi Annomestig | £0.252 miliwn |
| **Cyfanswm y Grant** | **£94.012 miliwn** |
| Treth Cyngor | £106.269 miliwn |
| **Cyfanswm y Cyllid** | **£200.281 miliwn** |

**Cyllideb 2025-26**

| | |
|---|---|
| Gwariant - Cyflogau - Swyddogion Heddlu | £118.946 miliwn |
| Gwariant - Staff yr Heddlu | £67.862 miliwn |
| Gwariant – Pensiynau | £4.013 miliwn |
| Gwariant – Costau Eraill Gweithwyr | £7.421 miliwn |
| Gwariant – Costau Rhedeg Eraill | £52.413 miliwn |
| Gwariant – Cyfraniad i Wariant Cyfalaf | £5.546 miliwn |
| | |
| **Gwariant – Gwariant Refeniw Gros** | **£256.201 miliwn** |
| Llai Incwm | £44.359 miliwn |
| **Gofynion y Gyllideb** | **£211.842 miliwn** |
| **Ariennir Drwy:** | |
| Grant Penodol yr Heddlu | £56.385 miliwn |
| Grant Llawr | £25.018 miliwn |
| Grant Cymorth Refeniw | £15.851 miliwn |
| Cyfran o Ardrethi Annomestig | £0.250 miliwn |
| **Cyfanswm y Grant** | **£97.504 miliwn** |
| Treth Cyngor | £114.338 miliwn |
| **Cyfanswm y Cyllid** | **£211.842 miliwn** |

## Cyllideb 2025-2026

| | |
|---|---|
| Gwariant - Cyflogau - Swyddogion Heddlu | £387.14 fesul Band D |
| Gwariant - Staff yr Heddlu | £220.88 fesul Band D |
| Gwariant – Pensiynau | £13.06 fesul Band D |
| Gwariant – Costau Eraill Gweithwyr | £24.15 fesul Band D |
| Gwariant – Costau Rhedeg Eraill | £170.59 fesul Band D |
| Gwariant – Cyfraniad i Wariant Cyfalaf | £18.05 fesul Band D |
| | |
| **Gwariant – Gwariant Refeniw Gros** | **£833.88 fesul Band D** |
| Llai Incwm | £144.38 fesul Band D |
| **Gofynion y Gyllideb** | **£689.50 fesul Band D** |
| **Ariennir Drwy:** | |
| Grant Penodol yr Heddlu | £183.52 fesul Band D |
| Grant Llawr | £81.43 fesul Band D |
| Grant Cymorth Refeniw | £51.59 fesul Band D |
| Cyfran o Ardrethi Annomestig | £0.81 fesul Band D |
| **Cyfanswm y Grant** | **£317.36 fesul Band D** |
| Treth Cyngor | £372.15 fesul Band D |
| **Cyfanswm y Cyllid** | **£689.50 fesul Band D** |

**Cyllideb Gyfalaf y Comisiynydd 2025-2026**

| | |
|---|---|
| **Gwariant Arfaethedig** | |
| Cerbydau ac Offer | £2.902 miliwn |
| Gwaith Adeiladu | £7.879 miliwn |
| Offer Cyfrifiadurol a Chyfathrebu | £6.377 miliwn |
| | |
| **Cyfanswm Gwariant** | **£17.158 miliwn** |
| **Dull Ariannu:** | |
| Grantiau Cyfalaf | £1.580 miliwn |
| Benthyca | £6.827 miliwn |
| Derbynebau Cyfalaf | £1.528 miliwn |
| Cyfraniad Refeniw a Balansau | £7.223 miliwn |
| **Cyfanswm Ariannu** | **£17.158 miliwn** |

## Lle allwch chi gael mwy o fanylion?

Cysylltwch a:

Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru
Glan y Don, Bae Colwyn LL29 8AW
Ffôn: 01492 805486
E-bost: schth@heddlugogleddcymru.police.uk

PAN FYDD YN LLAI PWYSIG NA 999 | 101 | WHEN IT'S LESS URGENT THAN 999

@NorthWalesPCC

@schthgc_nwopcc

schthgc_nwopcc

www.northwales-pcc.gov.uk

**Yn y daflen hon cewch ddadansoddiad sy'n dangos faint o'ch treth gyngor sy'n cael ei gwario ar blismona a nodir yn fras lle mae eich arian yn mynd. Am wybodaeth bellach ynglŷn â chyllideb yr heddlu, ewch ar wefan SCHTh:** www.northwales-pcc.gov.uk

## BETH YDY EICH BARN CHI?

Mae'r Comisiynydd yn atebol i'r bobl ledled Gogledd Cymru ac mae bob amser yn awyddus clywed barn pawb am faterion
yn gysylltiedig â'r heddlu a throsedd. Os hoffech ddweud eich barn wrth y Comisiynydd, ffoniwch **01492 805486** neu e-bostiwch: **OPCC@northwales.police.uk**. Gallwch hefyd fynd ar ein gwefan: **www.northwales-pcc.gov.uk**

## SUT I GYSYLLTU Â HEDDLU GOGLEDD CYMRU

Gallwch gysylltu â swyddogion drwy wefan Heddlu Gogledd Cymru: **www.northwales.police.uk**
Neu gallwch ffonio'r rhif difrys **101** neu **0300 330 0101**. Mewn argyfwng yn unig, ffoniwch **999**.

**PRINT BRAS**. Mae'r daflen hon ar gael mewn print bras. Er mwyn cael copi am ddim, ffoniwch **01492 805486**.